# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Dafydd Rhys Thomas** **Ward: Ynys Gybi**
**Grŵp: Annibynnol**

**Rôl a Chyfrifoldebau**

| **Rhwng Mai a Rhagfyr 2013, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | *** Ffigyrau Presenoldeb (darparwyd gan CSYM)** |
|---|---|
| Apeliadau (mynychu ar sail rota) | 2 |
| Archwilio | 4 |
| Cyngor | 8 |
| Gwasanaethau Democrataidd | 1 |
| Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 2 |
| * Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.
Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar Grŵp Cyswllt Prosiect Horizon Nuclear Power

**Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rwyf wedi bod yn aelod o Gyngor Sir Ynys Môn ers mis Mai 2013 ac mae wedi bod yn fraint cael cynrychioli Ward Ynys Gybi gyda fy nghyd-gynghorwyr, Jeff Evans a Trefor Lloyd Hughes. Ers mis Rhagfyr 2013, nid wyf, oherwydd salwch, wedi medru cyflawni fy rôl (er yn parhau i fod â diddordeb brwd) ond rwy'n gobeithio ail-afael yn yr awenau unwaith y bydd fy iechyd yn caniatáu.

Cyn hynny, mynychais gyfarfodydd o Gyngor Cymuned Trearddur (rwyf yn aelod ohono) a Chyngor Cymuned Rhoscolyn ac rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Morswyn. Hefyd, rwy'n rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Bodedern ac yn aelod o Gyd-Fwrdd Claddedigaethau Caergybi sy'n gyfrifol am reoli Mynwent Maeshyfryd.

Rwyf bob amser yn barod i gyfarfod yn anffurfiol ag etholwyr i drafod materion o ddiddordeb neu bryder lleol neu bersonol, e.e. ceisiadau cynllunio, llifogydd, materion priffyrdd, ansawdd dŵr a gallant gysylltu â mi ar unrhyw adeg ar y ffôn neu drwy e-bost. Byddaf yn cyfeirio materion i adrannau perthnasol y Cyngor ac rwy'n ddiolchgar iawn i swyddogion am eu cymorth a'u cefnogaeth ac am fod mor barod bob amser i drafod ac i ymchwilio i ffyrdd o ddatrys problemau .

Rwyf hefyd wedi cymryd diddordeb brwd yn yr ymgynghoriadau/cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr yn yr ardal, e.e. Land and Lakes, Wylfa Newydd.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fel y dywedais uchod, rwy'n cymryd diddordeb brwd yn yr holl faterion sy'n effeithio'r gymuned, e.e.

- Materion Diogelwch Ffyrdd - darparu croesfan i gerddwyr yn Kingsland
- Sicrhau fod blwch postio'n cael ei ail-osod ar Lôn Isallt, mater sy'n parhau i fynd rhagddo er gwaethaf trafodaethau hir gyda'r Swyddfa Bost
- Yr holl faterion cynllunio sy'n cael effaith ar y gymdogaeth gan gyfeirio achwynwyr ac ymgeiswyr fel ei gilydd at yr adrannau perthnasol
- Materion Ansawdd Dŵr
- Materion hamdden yn enwedig y ddarpariaeth o lwybrau beicio

**Dysgu a Datblygu**

| **Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan CSYM):** | |
|---|---|
| Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Cefnogi Aelodau | Mai 2013 |
| Fframwaith Moesegol | Mai 2013 |
| Iaith Gymraeg/Diogelu Data/Y Wasg a'r Cyfryngau | Mai 2013 |
| Hyfforddiant ar y Gofrestr Diddordebau | Mai 2013 |
| Trosolwg o Sgriwtini | Mehefin 2013 |
| Cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio | Gorffennaf 2013 |
| Cynnal Adolygiad Sgriwtini | Gorffennaf 2013 |
| Gwneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol weithio i gynghorwyr | Medi 2013 |
| Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am Gydraddoldeb | Medi 2013 |
| Hyfforddiant ar Adolygiadau Datblygiad Personol | Hydref 2013 |
| PRINCE 2 – Hyfforddiant i Aelodau Byrddau | Rhagfyr 2013 |

**Gweithgareddau a Materion Eraill**

Edrychaf ymlaen at ail-afael yn fy nyletswyddau cyn gynted ag sy'n bosibl a diolchaf yn ddiffuant i fy nghyd-Gynghorwyr (yn enwedig Jeff a Trefor), swyddogion a phobl Ynys Gybi am eu cefnogaeth, eu dymuniadau da a'u consyrn yn ystod y cyfnod hwn.

**Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** **Ebrill 2014**